Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb y Ddraig**

**Neuadd Les y Parc**
**Park Lane**
**Caerffili**
**CF83 1FN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

23/03/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Chlwb y Ddraig

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal y tu allan i oriau ysgol |
| Darparwr cofrestredig | Clwb y Ddraig Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth. Mae ganddynt berthynas agos â'i gilydd ac â'r staff, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac wedi'u gwerthfawrogi. Gall y plant wneud dewisiadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn yr amgylchedd.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn meddu ar gymwysterau priodol, ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn garedig ac yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi arferion a pholisïau priodol ar waith a'r mwyafrif o'r gweithdrefnau. Maent yn cynllunio gweithgareddau ystyrlon er mwyn bodloni diddordebau'r plant. Fodd bynnag, mae defnydd o'r Gymraeg yn annatblygedig.

Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n addas ar gyfer y gwahanol grwpiau oedran ac mae gan y gwasanaeth ddigon o offer y tu mewn. Mae mesurau effeithiol ar waith i gadw'r plant yn ddiogel. Mae angen rhywfaint o waith cynnal a chadw ar yr adeilad, ac mae angen datblygu arddangosfeydd y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn darparu lefel dda iawn o ofal i'r plant. Maent yn buddsoddi yn natblygiad y staff ac yn ei gefnogi, gan sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn gwneud gwelliannau lle bo angen er lles y plant yn eu gofal. Mae angen adolygu rhai dogfennau. Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau cadarnhaol gyda rhieni, ac maent yn canmol yr arweinwyr, y staff, a'r gofal a gaiff eu plant.

## Llesiant

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio’n dda ar y plentyn ac yn rhoi pwyslais cryf ar adael i'r plant reoli eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Er enghraifft, maent yn cyrraedd yn hapus ac yn gwenu, yn dilyn trefn gyfarwydd, ac yn dechrau ar eu gweithgareddau ar unwaith. Mae ganddynt berthynas agos â'i gilydd ac â'r staff, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac wedi'u gwerthfawrogi. Mae'r plant yn dweud wrthym mai chwarae tu allan yw'r peth gorau i'w wneud yn y clwb.

Mae'r plant yn hyderus y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed, a chânt gyfleoedd amrywiol i wneud dewisiadau. Er enghraifft, maent yn dewis eu gweithgareddau eu hunain ac yn symud yn rhwydd rhwng ardaloedd tu fewn a thu allan. Hyrwyddir eu hannibyniaeth gan eu bod yn gwneud dewisiadau amser byrbryd, gan gynnwys dewis pryd i gael eu byrbryd. Maent yn paratoi eu byrbryd eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau bwyta'n iach o'r dewisiadau sydd ar gael.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol. Er enghraifft, cydweithiodd y plant yn hapus i adeiladu llong, gan ddangos diddordeb parhaus am gyfnod o amser. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd gan eu bod yn sgwrsio â'i gilydd wrth y bwrdd byrbryd. Mae'r trefniadau arferol wedi'u sefydlu ac mae'r plant yn gyfarwydd iawn â nhw. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth a'u bod yn siarad Saesneg yn gyffredinol. Maent yn gyfarwydd â rheolau'r gwasanaeth ac yn eu dilyn. Er enghraifft, mae plentyn yn gofyn yn hyderus i oedolyn am fwy o adnoddau.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae yn fawr iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymgymryd â gweithgareddau ysgogol yn dda am gyfnod priodol o amser. Er enghraifft, chwaraeodd un plentyn â set trên yn annibynnol, gan ddynwared synau trên ac ymgolli yn ei chwarae dychmygol. Dywedodd y plant wrthym gymaint y maent yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth a’u bod yn gwerthfawrogi'r amser i ymlacio gyda'u ffrindiau ar ôl yr ysgol.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn creu awyrgylch tawel, croesawgar a chadarnhaol yn y gwasanaeth. Maent yn cydweithio'n dda i ddiwallu anghenion y plant. Maent yn cefnogi'r plant yn dda i ryngweithio'n gadarnhaol ac yn feddylgar ag eraill. Maent yn siarad â phlant ar eu lefel hwy, gan roi eu sylw llawn iddynt ac ymateb yn gadarnhaol. Maent yn rhagweithiol ac yn effeithiol wrth reoli risgiau. Er enghraifft, roedd un aelod o staff yn cefnogi plentyn i ddringo coeden, gan roi cymorth ac anogaeth briodol. Mae'r staff yn hybu ffyrdd iach o fyw, gan ddarparu bwydlen fwyd amrywiol a chytbwys. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch ac mae gan y staff ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, pan fydd y plant yn cerdded o'r ysgol, gwisgir festiau llachar, mae'r plant yn cerdded mewn parau, ac mae'r staff yn gosod pellter addas rhyngddynt ag aelodau eraill o staff.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel, ar y cyfan, trwy ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth y rhan fwyaf o'r amser. Er enghraifft, maent yn defnyddio rhestrau gwirio dyddiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn dilyn gweithdrefnau COVID-19. Maent yn dilyn arferion hylendid bwyd a rheoli heintiau da ac yn dilyn rota lanhau fanylach. Maent yn dilyn polisïau'r gwasanaeth ar gyfer damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau. Fodd bynnag, nid oedd yr holl fanylion gofynnol wedi eu cynnwys mewn lleiafrif o'r ffurflenni, ac nid oedd yr holl staff yn glir ynghylch y gwahaniaeth rhwng ffurflenni damwain a digwyddiad. Nodwyd hyn gan y gwasanaeth yn ystod yr arolygiad. Maent yn dweud wrthym eu bod wedi darparu hyfforddiant ychwanegol i'r staff yn dilyn ein hymweliad. Mae'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf mewn diogelu plant, ac roedd yr holl staff y siaradwyd â hwy yn hyderus ynghylch y gweithdrefnau diogel i'w dilyn yn y rhan fwyaf o senarios diogelu damcaniaethol. Fodd bynnag, nid oedd rhai yn glir ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai honiad yn erbyn yr unigolyn cyfrifol.

Mae gan y staff wybodaeth dda am ddysgu seiliedig ar chwarae ac mae ganddynt y cymwysterau gofal plant perthnasol. Maent yn cynllunio gweithgareddau addas i ddatblygu ystod o sgiliau ac maent yn cefnogi'r plant yn dda yn eu chwarae. Maent yn rhannu profiadau arferion da gyda chydweithwyr o wasanaethau eraill y cwmni, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu rôl. Mae pob plentyn bron yn mynychu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg leol. Fodd bynnag, prin oedd y cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn y gwasanaeth. Er enghraifft, nid oedd unrhyw eiriau nac ymadroddion Cymraeg wedi'u harddangos fel y nodir yn y datganiad o ddiben ac nid oedd unrhyw lyfrau Cymraeg ar gael yn yr ardal ddarllen ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd y staff wrthym fod mwy o Gymraeg yn cael ei defnyddio pan fydd aelodau eraill o'r staff yn bresennol yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn rhannu eu sgiliau trwy ddod yn 'hyrwyddwyr' mewn meysydd penodol ac yn defnyddio eu harbenigedd i helpu eraill i ddatblygu eu sgiliau. Mae hyn wedi galluogi'r staff i ddatblygu'r ystod o weithgareddau newydd a chyffrous ar gyfer y plant. Er enghraifft, yn ystod yr arolygiad, roeddent yn casglu paledi pren er mwyn paratoi ar gyfer gweithgaredd cerfio pren oedd i ddod. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r ardal yn eang ac yn darparu mannau addas i blant chwarae, dysgu ac ymlacio yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Mae'r awyrgylch yn gyfeillgar ac yn canolbwyntio ar y plentyn, sy'n hybu ymdeimlad y plant o berthyn. Anogir datblygiad y plant drwy gael mynediad at deganau ac offer o ansawdd da, sydd wedi'u labelu ac wedi'u trefnu'n addas. Mae'r gweithgareddau'n cael eu trefnu'n bwrpasol ac yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Er enghraifft, mae ardaloedd ar gyfer chwarae rôl, chwarae byd bach, darllen, a datblygu sgiliau echddygol manwl a bras. Mae'r plant yn symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd hyn. Mae adnoddau eraill sy'n cael eu storio yn cael eu cylchdroi er mwyn rhoi ystod amrywiol o weithgareddau i'r plant. Mae deunyddiau wedi'u hailgylchu yn rhoi cyfle i'r plant ddatblygu eu chwarae dychmygus. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio cynfasau glas mawr a blychau cardbord i *'hwylio'r moroedd mawr'* mewn sefyllfa chwarae rôl. Mae'r adnoddau dychmygus hyn, ynghyd â'r ystod o adnoddau, yn hwyluso'r cyfleoedd chwarae a dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd i sicrhau eu bod yn lleihau neu'n dileu risgiau. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn neuadd gymunedol, a ddefnyddir gan aelodau eraill o'r gymuned. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau priodol wrth agor a chau'r gwasanaeth. Mae nifer priodol o doiledau, sy'n hygyrch. Darperir tywelion papur yn ogystal â gris i gael mynediad at fasnau ymolchi dwylo er mwyn hyrwyddo annibyniaeth. Fodd bynnag, roedd arwyddion o lwydni a lleithder yn y man toiledau ac mae brwsys toiled o fewn cyrraedd i'r plant. Mae bwrdd gwybodaeth symudadwy wedi'i leoli wrth y fynedfa, sy'n darparu gwybodaeth allweddol i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw gwaith y plant yn cael ei arddangos y tu mewn i'r adeilad ac mae'n anodd i'r plant gyrraedd y pegiau cotiau.

Mae'r gwiriadau nwy a thrydanol perthnasol ar waith ac mae gan y gwasanaeth yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys. Cwblheir asesiadau risg ar gyfer yr adeilad, yr ardal allanol, gweithgareddau'r plant a'r offer. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i leihau'r risg o dân. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd ac ar wahanol adegau o'r dydd. Caiff ymarferion tân a chofnodion damweiniau eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd, ac o ganlyniad mae asesiadau risg yn cael eu diweddaru'n barhaus. Mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd da o ardal fach tu allan sy'n rhoi cyfle i'r plant chwarae.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn frwdfrydig iawn ac yn gweithio'n galed i adeiladu tîm cryf a phartneriaethau da. Mae'r unigolyn â gofal sydd newydd ei phenodi yn ymgartrefu yn ei rôl newydd yn y gwasanaeth. Mae hi'n elwa ar rwydwaith a phrosesau cymorth cryf y cwmni. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chedwir cofnodion. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn hysbysu AGC yn gyson am ddigwyddiadau arwyddocaol megis newidiadau yn oriau gweithredu'r clwb gwyliau. Fodd bynnag, cwblhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Mae'r datganiad o ddiben newydd bellach yn adlewyrchu y bydd clwb gwyliau ar gael os bydd digon o bobl i'w wneud yn ymarferol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn myfyrio ar yr arferion yn y gwasanaeth ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau staff yn y broses hon. Mae'r staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i leisio eu barn mewn cyfarfodydd staff, mewn sesiynau arfarnu a goruchwylio un-i-un, neu ar unrhyw adeg y teimlant fod angen gwneud hynny. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gwrando ar eu syniadau, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Yn dilyn cyfarfodydd staff, cwblheir cynlluniau gweithredu i ysgogi gwelliant. Mae'r holl staff yn cwblhau o leiaf pum cymhwyster gorfodol, ac mae llawer wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael effaith fuddiol ar ddeilliannau'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cwblhau'r adolygiad ac adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal. Maent yn ceisio barn y staff, y rhieni a'r plant ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, adolygiad o'r cwmni cyfan yw'r adroddiad ac nid yw'n gwerthuso ansawdd y gofal yng Nghlwb y Ddraig yn benodol. Mae'r arweinwyr wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant ac wedi croesawu eu harolygiad llawn cyntaf yn llwyr fel rhan hanfodol o'u hunanwerthusiad a'u cynllunio ar gyfer gwelliant. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth bartneriaethau da gydag asiantaethau allanol megis Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru), ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sut y caiff y gwasanaeth ei redeg. Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn annog eu tîm yn weithredol. Maent wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu eu staff fel y gallant gyflwyno'r profiadau gorau i'r plant.

Mae'r rhieni'n llawn canmoliaeth o'r gwasanaeth ac yn canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn. Maent yn teimlo eu bod yn wybodus iawn a dywedasant wrthym eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth yn cefnogi llesiant a datblygiad eu plant. Dywedodd llawer o'r rhieni wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a'r profiadau a gaiff eu plant.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Datblygu cyfleoedd pellach i ddefnyddio’r Gymraeg.

A2. Sicrhau bod pob ardal yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol.

A3. Dathlu gwaith y plant trwy ddefnyddio arddangosfeydd dwyieithog.

A4. Tynhau'r broses o adolygu polisïau a dogfennau cyfatebol a sicrhau bod yr holl ffurflenni perthnasol yn cael eu llenwi'n gywir bob amser.

A5. Sicrhau bod yr adroddiad ansawdd gofal yn benodol i Glwb y Ddraig.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 19/05/2022